Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Y Fflint
Maes Hyfryd
Y Fflint
Sir Y Fflint
CH6 5LL

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Y Fflint

Ysgol gyfun gymysg 11 i 18 oed yw Ysgol Uwchradd Y Fflint, a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Y Fflint. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned leol Y Fflint ac yn derbyn disgyblion o dair ysgol gynradd yn Y Fflint, ac o ysgolion cynradd yn yr ardaloedd gwledig cyfagos. Mae 829 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda 122 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae tua 22% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae tua 3% yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae gan ryw 17% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%. Mae gan 1.2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2%.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2016. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol, pennaeth y chweched dosbarth a'r rheolwr busnes.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae gan Ysgol Uwchradd Y Fflint ethos cynhwysol a chefnogol sy'n cael effaith fuddiol ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau bugeiliol a threfniadau cymorth cryf. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, mae ganddynt bresenoldeb da, ac maent yn gwrtais a pharchus. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn ystod eang y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol.

Mae gan lawer o athrawon berthnasoedd gwaith pwrpasol a pharchus gyda disgyblion, ac mae'r addysgu mewn mwyafrif o wersi yn effeithiol o ran sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu yn bodloni anghenion pob un o'r disgyblion yn ddigon da. Mewn ychydig o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'u disgyblion, ac mae ffocws annigonol ar ddatblygu medrau llythrennedd.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir am ysgol gynhwysol a chefnogol, ac mae wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r tîm arweinyddiaeth ganol, sydd wedi'u cynllunio i gryfhau gallu, atgyfnerthu'r cryfderau presennol yn y ddarpariaeth a chefnogi gwelliant. Yn ystod y cyfnod hwn o newid, mae arweinyddiaeth wedi sicrhau bod lles disgyblion wedi parhau i fod yn gryfder, ac wedi sicrhau deilliannau da ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi cael effaith ddigonol ar ansawdd yr addysgu, gwella ysgrifennu disgyblion na chodi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella addysgu ac asesu

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn enwedig ysgrifennu

A4 Gwella ansawdd ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth ar bob lefel

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas. Mae llawer ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof ac yn cymhwyso hyn yn dda i gyd-destunau newydd. Fodd bynnag, mae diffygion ym medrau ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion yn eu rhwystro rhag cyrraedd eu potensial.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus. Maent yn amlygu gwybodaeth allweddol, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion mewn gwers gerddoriaeth yn gwrando'n astud ar batrwm rhythm, yn efelychu'r patrymau hyn yn hyderus, ac wedyn yn creu eu patrymau eu hunain.

Mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd gwrando, ac yn dangos ychydig iawn o ddiddordeb mewn testunau.

Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn glir ac yn huawdl. Maent yn rhoi eu barn yn rhwydd ac yn aeddfed pan gânt gyfle i wneud hynny, er enghraifft pan fydd disgyblion mewn gwers ddrama yn dangos sensitifrwydd a hunanymwybyddiaeth wrth drafod eu perfformiadau. Mae gan fwyafrif ohonynt afael da ar eirfa academaidd briodol sy'n benodol i bwnc, ac maent yn ei defnyddio'n dda yn eu hatebion ar lafar i gwestiynau'r athro. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn amharod i ddweud gormod y tu hwnt i ateb byr.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn gymwys. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn llwyddo i ddod o hyd i wybodaeth allweddol mewn testunau ffynhonnell, ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn ei chael yn anodd cael ystyr a gwybodaeth allweddol o destunau. Er enghraifft, defnyddiant eiriau allweddol fel cliwiau heb wneud yn siŵr eu bod yn deall neges gyfan y testun. O ganlyniad, maent yn camddeall neu'n defnyddio gwybodaeth yn anghywir.

Mae llawer o ddisgyblion yn creu darnau estynedig sydd wedi'u haddasu'n briodol, yn unol â chynulleidfa a diben. Mae ysgrifennu'r mwyafrif ohonynt wedi'i drefnu'n dda ac maent yn defnyddio ystod dda o eirfa ddisgrifiadol a ddefnyddir i ychwanegu diddordeb a lliw. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau esgeulus rheolaidd yn eu gramadeg. Hefyd, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu sy'n cael ei fynegi'n drwsgl a dryslyd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r darllenydd ddeall yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu, ac yn cuddio ansawdd eu gwybodaeth bynciol. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ysgrifennu cystal ag y maent yn siarad.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifyddeg pen cryf; er enghraifft, maent yn cyfrifo cyfrannau niferoedd, ac yn esbonio eu dull yn hyderus. Mae ganddynt fedrau rhif cryf. Defnyddiant y rhain yn effeithiol mewn gwyddoniaeth i gyfrifo newidiadau ynni mewn adweithiau cemegol. Mae llawer ohonynt yn llunio casgliadau cywir o graffiau yn hyderus. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn lluniau graffiau yn ofalus, ond mae lleiafrif ohonynt yn ddiofal, yn labelu echelinau'n anghywir, neu'n defnyddio pen ysgrifennu pan ddylent ddefnyddio pensil.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol addas.  Mewn technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg ddylunio gyda chymorth cyfrifiadur i greu modelau 2D o lampiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dychymyg a dawn greadigol yn dda mewn pynciau perfformio a’r celfyddydau creadigol.  Maent yn dadansoddi deunyddiau symbylu ac wedyn yn defnyddio hyn i ddatblygu eu syniadau a’u perfformiadau eu hunain yn llwyddiannus.  Er enghraifft, mewn celf, mae disgyblion yn defnyddio iaith yn greadigol i drafod gwaith Thiebaud ac wedyn wrth ddefnyddio cyfryngau amrywiol i greu eu gwaith celf pop eu hunain.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi dirywio ac mae’n gyson islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg.  Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi’i chapio wedi disgyn hefyd, ac mae islaw deilliannau mewn ysgolion tebyg mewn dwy o’r tair blynedd ddiwethaf.  Bu gwelliant yng nghyfran y disgyblion sy’n ennill pum cymhwyster TGAU neu gyfwerth ar raddau A*-A yn 2018, ond mae’n parhau islaw’r gyfran mewn ysgolion tebyg.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu perfformiad disgyblion mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson debyg i’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, neu’n uwch.  Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion mewn pynciau eraill, gan gynnwys y pynciau nad ydynt yn rhai craidd, yn rhy amrywiol.

Bu perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4 islaw’r cyfartaledd ar gyfer bechgyn a merched mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion yn y blynyddoedd diwethaf.

Bu perfformiad disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer y disgyblion hyn mewn ysgolion tebyg bron ym mhob dangosydd dros y tair blynedd ddiwethaf.  Mae’r disgyblion hyn yn cyflawni’n dda yn yr ysgol.  Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn, ac mae bron pob un ohonynt yn cyflawni trothwy lefel 1.  Yn 2018, llwyddodd dau o bob pump o ddisgyblion i gyflawni trothwy lefel 2 hefyd, gan gynnwys Saesneg a mathemateg.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o’r disgyblion yn aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn.

Mae perfformiad yn y chweched dosbarth yn gadarn.  Mae’r gyfran sy’n ennill tri chymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth a’r gyfran sy’n ennill tair gradd A*-C uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.  Fodd bynnag, mae cyflawniad ar y graddau uchaf islaw ysgolion tebyg.

Ar draws yr ysgol, anaml y mae disgyblion yn ymarfer eu medrau Cymraeg.  Mewn gwersi Cymraeg, nid oes gan ddisgyblion yr hyder i siarad Cymraeg y tu hwnt i atebion byr i gwestiynau athrawon.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae’r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu yn Gymraeg gyda chryn dipyn o ruglder, ac mae llawer ohonynt yn ysgrifennu paragraffau byr gyda chywirdeb addas a dealltwriaeth o

amserau'r ferf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster Cymraeg yn cynyddu. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster Cymraeg ail iaith, ac mae mwyafrif ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol yn cyfrannu'n llwyddiannus at les disgyblion. Maent yn teimlo synnwyr cryf o gymuned a pherthyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch, gofal a chwrteisi am bobl eraill, ac yn dangos medrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, er enghraifft fel mentoriaid yn cynorthwyo disgyblion iau. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn fuddiol mewn mentrau sy'n dangos cyfrifoldeb cymdeithasol, fel 'Diwrnod Ailgychwyn Calon' ('Restart a Heart Day') i godi ymwybyddiaeth am ataliad y galon.

Ceir cyfraddau cyfranogi uchel mewn rhaglen allgyrsiol gynhwysol. Er enghraifft, yn y sesiynau hyn, mae disgyblion yn mwynhau gwyddbwyll, crefft, drymio a drama. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad diwylliannol disgyblion, ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall yn dda sut i gynnal ffordd iach o fyw, a phwysigrwydd diet ac ymarfer corff. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o gyfleoedd chwaraeon, fel pêl-fasged, nofio, a chlwb sgwter a bwrdd sgrialu.

Mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus fod eu barn yn bwysig i'r ysgol, a bod yr ysgol yn gwrando arnynt. Mae gwaith y Cyngor Myfyrwyr, a'u rhan mewn gwneud penderfyniadau, yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda phartneriaid allanol ar hyn o bryd, i ddatblygu llwybrau mwy diogel i'r ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd arwain arloesol, fel profiad hyfforddiant chwaraeon dramor, ac yn fwyaf diweddar, yn America a Sri Lanka.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth yn yr ysgol. Credant fod yr ysgol yn delio'n dda â'r achosion prin o fwlio, a dywed bron pob un ohonynt fod rhywun y gallant droi ato/ati os byddant yn poeni.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym, yn gweithio'n ddiwyd ac yn awyddus i ddysgu. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Terfir arnynt yn rhy hawdd, nid ydynt yn canolbwyntio, ac maent yn amharu ar ddysgu disgyblion eraill. Mewn ychydig o achosion, mae gwaith disgyblion yn anghyflawn neu wedi'i gyflwyno'n wael.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'u disgyblion, ac yn creu amgylchedd dysgu pleserus a chyfeillgar. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn, maent yn cyfathrebu'n glir ac yn fodelau iaith effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn rheoli'r amgylchedd dysgu'n ddigon da, ac o ganlyniad, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn aflonyddgar.

Yn y gwersi hynod effeithiol prin, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau

sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ymgysylltu'n dda, a gwneud cynnydd da.  Maent yn cynllunio gweithgareddau heriol sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth flaenorol disgyblion, ac yn sicrhau cynnydd cryf mewn medrau pwnc ac mewn llythrennedd a rhifedd.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio ystod o adnoddau addas i gefnogi dysgu.  Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol, yn mynd o amgylch yr ystafell ddosbarth, ac yn cynnig cymorth ac arweiniad addas i ddisgyblion unigol.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn gosod amcanion dysgu clir nac yn cynllunio'n dda i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol a medrau llythrennedd, yn enwedig ysgrifennu.

Nid oes gan ychydig o athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion.  Maent yn cynllunio tasgau digyswllt nad ydynt yn datblygu dysgu mewn dilyniant rhesymegol.  At ei gilydd, nid yw'r gwaith yn ddigon heriol nac addas ar gyfer pob gallu, a phrin yw'r ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd.  Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn siarad gormod ac nid ydynt yn galluogi disgyblion i weithio'n annibynnol neu gyda disgyblion eraill yn ddigon aml.

Yn y mwyafrif o wersi, nid yw athrawon yn archwilio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon da.  Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn darparu adborth llafar defnyddiol, ar lefel dosbarth cyfan a lefel unigol.  Mewn llyfrau, mae ychydig o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol a diagnostig sy'n nodi'n glir sut gall disgyblion wella eu gwaith.  Fodd bynnag, mae ansawdd a defnyddioldeb adborth llafar ac ysgrifenedig yn rhy amrywiol ar draws pynciau, ac o fewn pynciau.  Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn gor-ganmol gwaith o safon gymedrol, ac mae sylwadau'n rhy arwynebol.  Hefyd, caiff gwerth eu hadborth ei danseilio gan nad ydynt yn disgwyl i ddisgyblion ymateb na gwneud gwelliannau i'w gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyrsiau gwerthfawr ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n berthnasol i'w hardal a'u diddordebau, fel peirianneg ac iechyd a gofal cymdeithasol.  Yn y chweched dosbarth, mae ystod o gyrsiau diddorol sy'n cefnogi llwybrau academaidd a galwedigaethol ar gyfer dysgwyr hŷn, gan gynnwys cyfrifiadura, troseddeg a'r gwyddorau meddygol.  Mae'r ysgol yn darparu gwersi medrau priodol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol ac yn datblygu gwydnwch.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn asesu cynnydd disgyblion yn y maes hwn ar hyn o bryd.  O ganlyniad, ni all arweinwyr werthuso effaith y ddarpariaeth hon ar safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ymyriadau teilwredig ac effeithiol i ddisgyblion sydd â medrau darllen gwan.  Mae cwricwlwm amgen difyr ar gyfer yr ychydig iawn o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu.  Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau allgyrsiol gwerthfawr i gyfoethogi dysgu disgyblion mwy abl.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn cael profiadau bywyd cyfoethog trwy gyfleoedd i gefnogi eu cymuned.  Er enghraifft, maent yn ymweld â chartref nyrsio lleol i gyfarfod â'r preswylwyr ac yn codi arian ar gyfer elusennau cenedlaethol.  Mae'r ysgol yn cynnig digwyddiadau allgyrsiol buddiol i wella profiadau dysgu disgyblion, er enghraifft teithiau i'r theatr a gweithgareddau cerddorol a diwylliannol.  Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddathlu diwylliant a

threftadaeth Cymru wedi eu datblygu'n ddigonol. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau ysgol, fel y clwb gwyddbwyll, y clwb crefftau a chôr yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo byw yn iach yn dda trwy roi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod addas o wybodaeth i nodi disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach. Mae'n darparu ymyriadau llythrennedd priodol i gefnogi'r disgyblion hyn. Mae ychydig o feysydd pwnc yn gosod ystod o dasgau addas i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a TGCh disgyblion yn raddol wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd addas ar gyfer datblygu'r medrau hyn mewn cyd-destunau perthnasol ar draws gwahanol bynciau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Uwchradd Y Fflint yn gymuned ofalgar a chynhwysol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod anghenion lles disgyblion yn cael eu bodloni trwy ei hymrwymiad cryf i ofal bugeiliol a chynhwysiant.

Ceir darpariaeth effeithiol a chynlluniedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r tîm ADY yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion cymhleth. Mae disgyblion ag ADY yn elwa ar y cwricwlwm prif ffrwd yn gyson dda, ac mae hyn yn adlewyrchu ymagwedd gynhwysol yr ysgol. Mae trefniadau pontio wedi'u cynllunio'n dda gydag ysgolion cynradd y clwstwr yn helpu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i ymgynefino'n llwyddiannus yn yr ysgol.

Cynhelir sesiynau ymyrraeth gwerthfawr ac effeithiol sy'n helpu sicrhau bod llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn darllen, deall a sillafu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o gymorth proffesiynol gan gynnwys ffisiotherapyddion, arbenigwyr iechyd galwedigaethol ac asiantaethau allanol fel Gweithredu dros Blant. Mae'r cymorth arbenigol hwn yn cyfrannu'n dda at les a dysgu disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r tîm bugeiliol yn darparu ystod o ymyrraeth berthnasol, gan gynnwys darparu cyfle i ddisgyblion fynd at gwnselwyr ac ystod o staff cymorth, trwy eu canolfan 'Learn Be'. Fodd bynnag, gan fod y ddarpariaeth hon yn newydd, mae'n rhy gynnar i farnu ei heffaith.

Mae gan yr ysgol system olrhain addas i fonitro cynnydd academaidd disgyblion. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i ddarparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud defnydd cyson o'r data hwn i ddarparu cymorth ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio'r system i alluogi arweinwyr i nodi tangyflawni yn haws. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y newidiadau.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod anghenion lles disgyblion yn cael eu bodloni trwy ei darpariaeth gref ar gyfer gofal bugeiliol a chynhwysiant, a'i ffocws arnynt. Cefnogir y ddarpariaeth gan weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, fel cystadleuaeth drafod ar iechyd meddwl. Ceir darpariaeth addas ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o bartneriaethau gydag ystod o asiantaethau, fel 'Gyrfa Cymru' a phrosiect 'Fy Addysg, Cyflogaeth a Menter' ('My Education, Employment and Enterprise') i wella'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnig arweiniad a chyngor buddiol ar ddewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ychwanegol, ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr a phoblogaidd, fel nofio a beicio mynydd, sy'n helpu hyrwyddo ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol y tu allan i wersi, fel cynhyrchiad diweddar yr ysgol, sef 'Beauty and the Beast' ac ymweliadau addysgol i Barcelona a Gwlad yr Iâ. Mae gwaith yr ysgol i gefnogi medrau personol a datblygiad cymdeithasol disgyblion yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad y disgyblion o berthyn i gymuned yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir o ysgol gynhwysol sy'n cefnogi ac yn bodloni anghenion disgyblion yn eu cymuned leol. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan y dirprwy bennaeth, ac yn briodol gan yr aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth a benodwyd yn ddiweddar.

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae'r pennaeth wedi cyflwyno newidiadau sylweddol i strwythur ac arweinyddiaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r tîm arweinyddiaeth ganol er mwyn cryfhau gallu, atgyfnerthu'r cryfderau presennol yn y ddarpariaeth, a chefnogi gwelliant yn ansawdd yr addysgu. Mae gan uwch arweinwyr rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir sy'n cwmpasu agweddau allweddol arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes digon o amser i ychydig o aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth ymgymryd â'r rolau hyn yn effeithiol.

Er bod arweinwyr yn ymwybodol o'r meysydd eang y mae angen eu gwella, nid yw wedi targedu'r meysydd hyn yn ddigon manwl gywir. Nid yw arweinyddiaeth wedi cael effaith ddigonol ar ansawdd yr addysgu, gwella ysgrifennu disgyblion na chodi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae mwyafrif yr arweinwyr yn ymgymryd â'u rôl yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn deall eu rôl yn llawn, ac nid oes gan yr arweinwyr hyn afael cadarn ar y cryfderau a'r gwendidau o ran addysgu yn y meysydd y maent yn eu harwain. Nid yw'r arweinwyr hyn wedi gallu darparu gwelliannau digonol a chynaledig yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw llawer o amcanion rheoli perfformiad yn ddigon clir na manwl gywir i alluogi athrawon i gynllunio ar gyfer, neu fesur, eu gwelliant yn llwyddiannus.

Mae gan lywodraethwyr wybodaeth gadarn am yr ysgol, ac mae llawer ohonynt wedi eu cysylltu'n briodol ag adrannau. Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn cynnig her addas i arweinwyr.

Mae arweinwyr yn ymgymryd ag ystod ddefnyddiol o weithgareddau i lywio eu gwerthusiad o waith yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi helpu uwch arweinwyr i nodi'n briodol nifer y meysydd pwysig i'w datblygu yng ngwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad o'r ddarpariaeth yn canolbwyntio'n ddigon da ar ei heffaith ar safonau disgyblion a'u medrau.

Mae cynllunio gwelliant ar lefel ysgol gyfan ac adrannol yn canolbwyntio'n briodol ar bedair blaenoriaeth briodol, gan gynnwys gwella cywirdeb a dibynadwyedd gwybodaeth asesu, a gwella deilliannau yng nghyfnod allweddol 4. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi gweithio gyda'i gilydd yn briodol i wella cywirdeb gwybodaeth asesu er mwyn nodi tangyflawni yn gyflym.

Nid yw llawer o arweinwyr canol yn monitro ansawdd y ddarpariaeth nac yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn eu meysydd eu hunain yn ddigon da. Nid ydynt yn rhoi digon o sylw i'w blaenoriaethau datblygu pwnc wrth gynllunio gwelliant. Ar hyn o bryd, ni chaiff rheolwyr dysgu eu cynnwys mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn eu meysydd cyfrifoldeb. Er gwaethaf y diffygion hyn, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol mewn nifer o agweddau. Mae wedi llwyddo i gynnal ymdeimlad cryf o gymuned, ac mae lles disgyblion yn gryfder. Hefyd, maent wedi creu yn effeithiol amgylchedd lle mae disgyblion sy'n agored i niwed yn derbyn gofal ac yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n gyson dda.

Mae athrawon yn dechrau archwilio dulliau addysgu newydd trwy brosiectau ymchwil, a thrwy gydweithio ag athrawon eraill yn fewnol. Mae rhan yr ysgol yn y rhwydwaith ysgolion arloesi wedi cyfrannu at welliannau mewn darpariaeth ar gyfer lles ac iechyd meddwl yn effeithiol.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r pwyllgor cyllid yn monitro cyllid ac adnoddau'r ysgol yn fedrus. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i gofnodi gwarged yn y gyllideb am y tair blynedd ddiwethaf. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod pob un o'r arweinwyr yn rheoli adnoddau'n dda. Trwy raglen effeithiol o welliannau i'r safle a defnydd pwrpasol o adeiladau, mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Er enghraifft, mae disgyblion o'r ysgol arbennig gyfagos yn rhannu'r cyfleusterau arlwyo. Mae hyn o fudd i'r ddwy ysgol ac yn cyfrannu'n dda at natur gynhwysol yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau penodol fel y grant datblygu disgyblion yn effeithiol i gryfhau darpariaeth a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2019